

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4: Adrannau 50-53

Dyletswydd i wneud taliadau uniongyrchol

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bws y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adrannau 50, 51, 52 a 53 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Dolenni allweddol:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015)

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1815/pdfs/wsi_20151815_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218p/art4cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 11 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adrannau 50 - 53** yn rhoi'r gallu i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol tuag at gost diwallu angen oedolyn am ofal a chymorth dan adran 35 neu 36; neu yn achos plentyn, ei anghenion am ofal a chymorth dan adrannau 37, 38 neu 39. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl gwneud taliadau uniongyrchol tuag at gost diwallu anghenion gofalwr am gymorth dan adrannau 40, 42 neu 45.

Os yw asesiad wedi canfod bod gan berson anghenion gofal a chymorth cymwys, neu anghenion cymorth yn achos gofalwr, a bod y person neu ei gynrychiolydd yn gofyn am

daliadau uniongyrchol i ddiwallu'r anghenion hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol weithio mewn partneriaeth gyda'r person neu ei gynrychiolydd i ganfod sut y gall ei anghenion cymwys gael eu diwallu a sut y gall ei ganlyniadau llesiant gael eu cyflawni trwy dderbyn taliadau uniongyrchol.

Beth mae'n ei wneud?

Mae'n rhaid ystyried bod taliadau uniongyrchol yn rhan annatod o'r broses asesu a chynllunio gofal, ac ni ddylent gael eu hystyried fel eilbeth mwyach ond yn hytrach yn ddull pwysig, lle y bo'n briodol, o ddiwallu angen person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd a'r wybodaeth y mae'n rhaid iddo'i darparu ar gyfer yr unigolyn neu ei gynrychiolydd er mwyn iddo allu gwneud penderfyniad gwybodus pa un a yw'n dymuno derbyn taliadau uniongyrchol ai peidio.

Mae'r Rheoliadau'n cael gwared ar gyfyngiadau o ran pwy all dderbyn taliadau uniongyrchol ac yn galluogi'r rhai â dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol i gael taliadau uniongyrchol lle mae mesurau diogelu addas wedi'u sefydlu.

Gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer unrhyw angen dynodedig am ofal a chymorth y mae awdurdod lleol yn mynd i fod yn ei ddiwallu. Mae hyn yn cynnwys gofal a chymorth cymunedol a gofal a chymorth preswyl byrdymor a hirdymor. Gall derbynnydd brynu ei ofal a chymorth yn uniongyrchol gan ei awdurdod lleol hefyd.

Gall taliadau uniongyrchol gael eu darparu gan yr awdurdod lleol i dalu i berthynas sy'n byw ar yr un aelwyd am ddarparu gofal a chymorth neu am roi help i reoli'r taliadau, os yw'n briodol er mwyn hyrwyddo llesiant y derbynnydd.

Mae'r graddfeydd amser ar gyfer cynnal adolygiad cyntaf o daliadau uniongyrchol wedi cael eu lleihau o 12 mis ar ôl gwneud y taliad cyntaf i 6 mis. Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal bob 12 mis wedi hynny oni bai fod yr awdurdod lleol, y derbynydd neu ei berson addas yn ystyried bod angen cynnal adolygiad cyn hynny.

Cydweddiad â'r Ddeddf

Mae'r newid rheoleiddiol yn cynnal parhad taliadau uniongyrchol ond yn gwella'r gallu i'w defnyddio mewn ffordd arloesol a chreadigol fel dull o gyflawni canlyniadau llesiant personol. Mae'r rheoliadau diwygiedig yn cofleidio holl ethos y Ddeddf o ran hyrwyddo annibyniaeth pobl trwy roi llais cryfach iddynt, a mwy o ddewis a rheolaeth o ran sut y caiff eu hanghenion am ofal a chymorth eu diwallu. Gellir cyflawni hyn trwy hyrwyddo partneriaeth a chydgyngyrchu, trwy weithio gyda'r derbynydd i ddod o hyd i'r ffordd orau o gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol; sicrhau cydraddoldeb, trwy gael gwared ar gyfyngiadau o ran y bobl sy'n gallu derbyn taliadau uniongyrchol; ac ansawdd, trwy ddarparu digon o wybodaeth i alluogi'r unigolyn i wneud dewis gwybodus.

Mae'n rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf weithio mewn partneriaeth gyda'r unigolyn i ddod o hyd i ddatrysiadau i ddiwallu ei anghenion dynodedig. Ceir canllawiau ynghylch diwallu anghenion yn **Rhan 4** o'r Ddeddf.

O ran sut y bydd anghenion yn cael eu diwallu, mae'n rhaid ystyried darpariaethau yn **Rhan 2**, adran 16 (y ddyletswydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol; sefydliadau cydweithredol; gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector).

Beth mae'r newidiadau'n ei olygu yn ymarferol?

Mae'r darpariaethau newydd wedi'u bwriadu i wneud y drefn ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol yn fwy hyblyg, yn llai biwrocraataidd ac yn berson-ganolog.

Lle mae anghenion gofal a chymorth cymwys, neu anghenion cymorth cymwys yn achos gofalwr, wedi cael eu hadnabod a bod yr unigolyn, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dymuniad i gael taliadau uniongyrchol, mae'n **rhaid** trefnu iddynt fod ar gael ym mhob achos lle maent yn ei gwneud yn bosibl cyflawni canlyniadau llesiant personol. Rhagwelir y bydd cynnydd yn y galw o ganlyniad i ehangu

cymhwysra ar gyfer taliadau uniongyrchol a'u hygyrchedd.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol beidio â bod yn ddibynol mwyach ar nifer cyfyngedig o ddarparwyr wrth adnabod gofal a chymorth, a pheidio â'i gwneud yn ofynnol defnyddio taliadau uniongyrchol mewn ffordd arbennig: mae'n rhaid addasu gwasanaethau fel eu bod yn gweddu i bobl yn hytrach na bod pobl yn addasu i weddu i wasanaethau.

Mae'n **rhaid** i ymarferwyr fod yn arloesol ac yn greadigol a gweithio mewn partneriaeth gyda derbynyddion neu eu cynrychiolwyr i archwilio ffordd o ddileu rhwystrau artiffisial i alluogi'r derbynydd i gyflawni'r canlyniadau sydd o bwys iddo.

Mae'n rhaid i daliadau uniongyrchol gael eu gwrthod **dim ond** lle mae'n amlwg ar ôl archwilio'n helaeth na fyddent yn sicrhau'r canlyniadau llesiant sy'n ofynnol.

Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi pobl i brynu eu gwasanaethau eu hunain mewn ffordd sy'n gweddu iddynt hwy neu gyflogi cynorthwydd personol; maent yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn hyrwyddo'r arfer o fyw'n annibynnol.

Rhagor o wybodaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=c>
[Y](#)

Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>

Pecyn Cyflogwyr ar gyfer cefnogi dysgu Cynorthwyr Personol:

<http://www.pecyncyflogwrcp.cymru/?force=2>

Llawlyfr Ar-lein i Gynorthwyr Personol:

<https://courses.p2pu.org/en/courses/2763/the-personal-assistants-online-guidebook/>

Y Fframwaith Mesur Perfformiad:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005c-ode-of-practicecy.pdf>

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814n-ofcy.pdf>